# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (240)

### Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2006

### Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

### 2.00pm
### Eitem 1: Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

**NDM3359 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i’w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2007-1, yn cael ei sefydlu yn unol ?heol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau’r Cynulliad yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i’r cynnig hwn a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau’r Cynulliad yng nghyswllt y rheini’n cael eu dirprwyo i’r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau’r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones (Cadeirydd)
Glyn Davies
Tamsin Dunwoody
Elin Jones

3. Bod y Pwyllgor yn peidio ?od pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi’r llythyr penderfynu yn unol ?heol Sefydlog 17.16 neu ar 26 Ionawr 2007, pa un bynnag a fydd gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio ?od heb i’r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas ? 146;r mater a nodir yn yr Atodlen i’r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, yng nghyswllt mater o’r fath, i'r Prif Weinidog.

ATODLEN

CEISIADAU CYNLLUNIO O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 SYDD WEDI’U GALW I MEWN GAN MERTHYR VILLAGE LIMITED AR GYFER:

(CAM 1) CAIS LLAWN (CYF. 020060) – ADENNILL AC ADFER TIRWEDD 83HA O 244 HA O

DIR DIFFAITH AC SYDD WEDI'I DDIFETHA YN CYNNWYS AILBROFFILIO TOMENNI AC ADENNILL GLO O DOMENNI GWASTRAFF DETHOL.

(CAM 2) CAIS AMLINELLOL (CYF. 020260) - CYNLLUN DATBLYGU CYNHWYSFAWR I DDARPARU SIOPAU, GWASANAETHAU HAMDDEN, SWYDDFEYDD, GWESTY, STADIWM P?-DROED, PARC GWLEDIG A DEFNYDD PRESWYL GYDA MYNEDIAD, GWASANAETHAU, PARCIO A THIRLUNIO CYSYLLTIEDIG

AR DIR YN RHYDYCAR, MERTHYR TUDFUL, YN FFINIO GYDA'R A470 I'R DWYRAIN A HEOLGERRIG I'R GOGLEDD.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 26 | 0 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 2.00pm
## Eitem 2: Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

………………………………

## 2.32pm
## Eitem 3: Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.  Cafodd cwestiynau 2 a 7 eu grwpio.

………………………………

## 3.18pm
## Eitem 4: Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei chyfrifoldebau ac eithrio busnes

Gofynnwyd yr 13 cwestiwn cyntaf ac eithrio cwestiwn 11 a drosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig

gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau. Cafodd cwestiynau 3 a 6 a chwestiynau 7, 8 a 12 eu grwpio.  Ni ofynnwyd cwestiwn 14.

....................................

**3.45pm**

## Eitem 5: Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Newid polisi ar gyfer plant dan 7 a'r goblygiadau ariannol

....................................

## Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo The Avian Influenza (H5N1 in Wild Birds) (Wales) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)

Ni chyflwynwyd cynnig.

....................................

## Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo The Avian Influenza (H5N1 in Poultry) (Wales) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)

Ni chyflwynwyd cynnig.

....................................

**4.13pm**

## Eitem 8: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006

**NDM3360 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 36 | 0 | 0 | 36 |

**Derbyniwyd egwyddor y gorchymyn.**

**NDM3361 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Tachwedd 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 0 | 35 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

**……………………………..**

## 4.15pm
## Eitem 9: Dadl ar yr Adolygiad o Gyngor y Celfyddydau

## 4.56pm
## Cynnig Trefniadaol

Yn unol ?heol Sefydlog 6.21, rhoddodd y Trefnydd gynnig trefniadol gerbron i estyn y cyfarfod am chwarter awr. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 1 | 3 | 37 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Eitem 9: Dadl ar yr Adolygiad o Gyngor y Celfyddydau (parhad)

### NDM3362 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r Adroddiad "Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru"; a

2. Yn cydnabod yr amser a'r arbenigedd a neilltuwyd gan y Panel, dan gadeiryddiaeth yr Athro Elan Closs Stephens, i gynnal yr Adolygiad.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

### Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Yn lle *‘Yn nodi’r’* rhoi *‘Yn croesawu’r’*.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 38 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

### Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn croesawu cynnig y Panel na ddylai chwe chwmni cenedlaethol blaenllaw gael eu cyllido’n uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a thrwy hynny ddiogelu'r egwyddor ‘hyd braich’ yng nghyswllt rhyddid artistig."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 10 | 28 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu holl argymhellion yr Adroddiad yn llawn."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 15 | 28 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

> *"Yn croesawu'r ffaith fod yr egwyddor hyd braich ar gyfer rheoli'r Celfyddydau yng Nghymru yn strategol yn cael ei hailddatgan."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 10 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

> *"Yn galw ar y Gweinidog dros Ddiwylliant a'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i lunio cynllun gweithredu ar y cyd ar roi'r argymhelliad i ddatblygu partneriaethau strategol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Awdurdodau Lleol ar waith."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 10 | 28 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymateb i'r Adroddiad drwy lunio cynllun cynaliadwy ar gyfer twf y Celfyddydau yng Nghymru yn unol ?oll argymhellion Adolygiad Celfyddydau Cymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 9 | 28 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

> *"Yn credu bod sylwedd yr Adroddiad hwn yn dangos bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniadau pwysig ar ddyfodol y Celfyddydau yng Nghymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 10 | 28 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

Y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM3362 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r Adroddiad "Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru" ; a

2. Yn cydnabod yr amser a'r arbenigedd a neilltuwyd gan y Panel, dan gadeiryddiaeth yr Athro Elan Closs Stephens, i gynnal yr Adolygiad.

3. Yn croesawu'r ffaith fod yr egwyddor hyd braich ar gyfer rheoli'r Celfyddydau yng Nghymru yn strategol yn cael ei hailddatgan.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**...................................**

**5.15pm**
**Eitem 10: Dadl fer**

**NDM3363 Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):**

Prawf FAST – Mae str?n argyfwng meddygol

**………………………………**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40pm**

**………………………………**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**